

Disgrifiad Rôl: Cyfranogiad yn Fforwm 13-15 Brook

Beth ydy Cyfranogiad?

Mae pobl ifanc yn Brook wedi disgrifio Cyfranogiad mewn ffyrdd gwahanol; cymryd rhan, ymuno, achosi newid, gweld canlyniad a rhoi help llaw!

Mae Cyfranogiad yn golygu rhoi cyfle i bobl fod yn rhan o benderfyniadau a allai eu heffeithio nhw. Mae hyn wedi'i warantu i blant a phobl ifanc trwy Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Trwy ddewis i gyfranogi at waith Brook, byddwch yn helpu i wneud yn siŵr bod ein gwaith yn y gwneud y gorau posibl ar gyfer pobl yn eich ardal leol ac ar draws y DU, ac ar yr un pryd yn cymryd rôl allweddol yn eich datblygiad eich hun trwy ehangu eich gwybodaeth a'ch sgiliau mewn sawl ffordd wahanol. Bydd croeso i chi fod yn aelod o'r fforwm ieuentid am hyd at 2 flynedd.

Y Rôl: Beth i'w ddisgwyl?

Dyma rai o'r cyfleoedd y gallai cyfrannu at Brook ei gynnig i chi:

13-15

- Cydweithio ar ymgyrchoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth am faterion sy'n ymwneud â pherthynas ac iechyd rhyw. Efallai y byddai hyn trwy gyfleoedd sy'n digwydd ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- Trefnu, mynychu a chynrychioli Brook mewn digwyddiadau.
- Creu, llenwi a hyrwyddo arolygon i'n helpu ni i wella'r hyn rydyn ni'n ei wneud.
- Bod yn rhan o drafodaethau grŵp i helpu i wella ein gwasanaethau, gydag oedolion a phobl ifanc eraill.
- Rhoi adborth ar ein hadnoddau addysgol ar gyfer pobl ifanc ac oedolion a'n helpu ni i'w gwella.
- Ein cefnogi gyda syniadau yn ymwneud â dylunio ein gwasanaethau newydd.
- Rhannu ein cynnwys digidol trwy sianelau cyfryngau cymdeithasol.

Amdanoch chi

Bydd pobl sy'n gysylltiedig â Chyfranogiad Brook:

13-15

- Yn teimlo'n angerddol am faterion yn ymwneud â pherthynas ac iechyd rhyw ac yn awyddus i gefnogi Brook i gyflwyno negeseuon positif am ryw yn lleol ac ar draws y wlad
- Yn ymrwmo i fynychu cyfarfodydd gyda phobl ifanc eraill 4 gwaith y flwyddyn (3 ar-lein ac un trip preswyl) wedi'u trefnu gan dîm Brook (dyddiadau'n cael eu rhoi o flaen llaw)

- Yn parchu eraill sy'n cymryd rhan ac yn cadw meddwl agored
- Yn ymrwymo i amcanion, gwerthoedd a dibenion [Gwaith Brook](#)
- Yn ddibynadwy ac yn brydlon
- Yn gallu cymryd rhan fel aelod o dîm
- Yn gallu cwblhau rhai tasgau ysgrifenedig neu dasgau ar lafar
- Yn gyfathrebwr da; cadw mewn cysylltiad â'r Arweinwyr Cyfranogi
- Yn hapus i ddenu pobl ifanc eraill at y gwaith

Os ydych o dan 18 oed, byddwn yn gofyn a yw'n bosib i chi gael eich rhiant/gwarchodwr i lenwi ffurflen yn rhoi caniatâd i chi gyfrannu at Brook. Os nad yw hyn yn bosib, fe wnawn ni drafod hyn â chi.